

**Ugain rhaglen  
Gymraeg uchaf**

(Teitl y Rhaglen, diwrnod ac amser Darlledu, cyflenwr, miloedd holl wylwyr)

**1 Pobol Y Cwm**, Gwener (20:00), Sul (19:05) A Llundun 15/12 (14:30) Bbc Cymru **99**

**2 Pobol Y Cwm**, Iau (20:00), Gwener (14:30) A Sul (18:45) Bbc Cymru **98**

**3 Cefn Gwlad**, Llundun (21:00), Mercher (14:00), Gwener (20:25) A Sul (15:30) Itv Cymru **91**

**4 Pobol Y Cwm**, Mawrth (20:00), Mercher (14:30) A Sul (18:00) Bbc Cymru **82**

**5 Pobol Y Cwm**, Mercher (20:00), Iau (14:30) A Sul (18:20) Bbc Cymru **77**

**6 Pobol Y Cwm**, Llundun (20:00), Mawrth (14:30) A Sul (17:35) Bbc Cymru **75**

**7 Con Passionate**, Sul (21:00) A Iau 18/12 (21:30) Teledu Apollo **67**

**8 Penawdau Newyddion**, Llundun (20:55) Bbc Cymru **61**

**9 Dechrau Canu Dechrau Canmol**, Sul (20:30) Avanti **53**

**10 Pawb A'i Farn**, Iau (20:25) Bbc Cymru **47**

**11 Mastermind Plant Cymru**, Sul (19:50) Bbc Cymru **45**

= **Casa Dudley**, Mercher (20:25), Sadwrn (12:30), Sul (22:10) A Llundun 15/12 (23:35) Rondo **45**

**13 Cwpan Heineken**, Sadwrn (20:00) Sunset + Vine **41**

= **Ffermio**, Llundun (20:25) A Sul (14:30) Teledu Telesgop **41**

= **Wedi 7**, Llundun (19:00) A Mawrth (13:40) Tinopolis

# Agor Melin i Sgwrsio ynddi

BYDD menter gymunedol newydd sbon o'r enw Y Felin Sgwrsio yn cael ei hagor yn swyddogol heddiw ym mhentref y Felinheli ger Bangor.

Pwyllgor o wirfoddolwyr lleol sy'n rheoli'r prosiect. Ffurfiwyd y pwyllgor i geisio sicrhau defnydd cymunedol ar gyfer y safle yn sgil cau caffi Y Tebot Poeth rai misoedd yn ôl, a llwyddwyd i ddenu £6,000 o gronfa Cist Gwynedd er mwyn adnewyddu'r adeilad a'i droi'n gyrchfan deniadol a chyfforddus ar gyfer defnyddwyr lleol.

Eisoës, mae pum prosiect cymunedol wedi eu cychwyn yn Y Felin Sgwrsio gan gynnwys un menter arloesol i ddarparu gofod pwrpasol ar gyfer dysgwyr Cymraeg Môn ac Arfon i ddod ynghyd gyda Chymry Cymraeg lleol i ymarfer eu Cymraeg mewn

awyrgylch anffurfiol.

"Dwi wastad wedi meddwl ei bod hi'n hwyr glas symud y broses o ddysgu Cymraeg allan o'r dosbarth ac i sefyllfaoedd anffurfiol yng nghalon ein cymunedau, ac mae'r Felin Sgwrsio yn enghraifft perffaith o sut y gellir gwneud hyn," meddai cadeirydd y Felin Sgwrsio, Aled G Jôb.

"Mae gynnon ni dîm o tua hanner dwsin o fentoriaid Cymraeg lleol sydd yn rhoi o'u hamser i helpu dysgwyr Cymraeg, ar ba bynnag lefel, i ddatblygu eu sgiliau sgwrsio yn Gymraeg. Ac wrth gwrs, mae'r ffaith bod Felinheli'n parhau yn bentref Cymraeg naturiol yn ychwanegu at werth menter fel hon ar gyfer ein dysgwyr."

Er mai'r prosiect dysgu Cymraeg oedd yr ysgogiad cyntaf ar gyfer y fenter, erbyn hyn mae 4 prosiect

arall ar waith yn Y Felin Sgwrsio, sef Clonc a Chyngor hefo'r cynghorydd sir lleol, Sian Gwenllian; Y Felin ers Stalwm - sef prosiect hanes llafar digidol gyda phobl hyn y pentref; Clinig Cyfrifiadurol, a'r Felin Stori - sef clwb darllen ar gyfer plant y pentref.

Dyweddodd cynghorydd sir y pentref, Sian Gwenllian ei bod hi'n wych o beth fod y caffi wedi'i addasu fel hyn a'i fod yn parhau i ddenu pobol y pentref yn hytrach na'i fod wedi ei droi'n fflat arall.

"Mi hoffwn i ddiolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed i gael y fenter ar ei thraed, i'r noddwyr lleol a'r cyngor cymuned am eu ffydd, ac i Cist Gwynedd am y grant i ail-wampio'r adeilad" meddai.

"Mae'n le ar gyfer pobl o bob oed, felly dowch draw i ymuno yn y

bwrlwm!"

Fel rhan o'r agoriad, dangosir DVD sydd wedi'i baratoi gan ddisgyblion Ysgol Gymuned Y Felinheli yn hyrddo'r pentref fel lle da i ddysgu ac i ymarfer Cymraeg, a bydd ambell i ddysgwyr Cymraeg yn dweud gair neu ddau am eu profiadau yn dysgu Cymraeg yn Y Felin Sgwrsio. Yn ogystal, bydd rhai o'r straeon digidol sydd wedi eu hel gan brosiect Y Felin ers Stalwm yn cael eu dangos.

Ymhlith cynlluniau nesaf Y Felin Sgwrsio y mae cychwyn Clwb Ffilm yn dangos ffilmiau tramor (fel yr arferid ei wneud yn Theatr Gwynedd ar nos Sul), a chychwyn Clwb Trafod Llyfrau.

Y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones, yr AC lleol fydd yn ei hagor am 10.00 bore heddiw (Gwener).